

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Mehefin 27ain 2016 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **06/16 PRESENNOL:** Cynghorwyr: Yn y gadair John Crossley (Is Gadeirydd), Jamie Ayers, Brenda Jones (bu'n rhaid iddi adael y cyfarfod ar y dechrau gan iddi deimlo'n sâl), Christopher Jones, Nesta Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyng. Sir K Howell, Cyfieithydd ac aelod o'r cyhoedd
2. **06/16 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Ian Davies, Delyth Evans, Caroline Roberts, Adrian Thomas
3. **06/16 ETHOL IS-GADEIRYDD:** Cynigwyd ac eiliwyd y Cynghorydd John Crossley a chytunwyd ac eithrio un ymataliad.
4. **06/16 HEDDLU:** Ymddiheiriad. Gor yrru yn yr ardal o hyd.
5. **06/16 COFNODION:** (i) derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol Mai 23ain 2016 a'u cael yn gywir -
Cynigydd – Cyng. M Rees Eilydd – Cyng. D Smith
(ii) derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Mai 23ain 2016 a'u cael yn gywir –
Cynigwyd – Cyng. J Wigley Eilydd – Cyng. N Jones
6. **06/16 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Cyng. J Crossley – 6. - 7.i 03/15 Materion yn Codi
Cyng. J Wigley – 7.05/16-W/33886 Cynllunio
Cyng. N Jones – 7.05/16-W/34006 Cynllunio
7. **06/16 MATERION YN CODI:**
12.i.01/14. b)Audio Trail – C Roberts ddim yn bresennol
6.i. Pwyllgor y Parc – aros am y ddogfen drafft wrth y cyfreithiwr
7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – dwedodd y Clerc y byddai yn cylchlythru gwybodaeth a dderbyniodd er mwyn i'r cynghorwyr ei ddarllen cyn gwneud penderfyniad yn y cyfarfod nesaf
2.05/16 Llinellau Melyn – nododd y Clerc ers 2002 bod dim angen arwyddion i gyd fynd gyda'r llinellau dwbl melyn er mwyn dirwyo modurwyr sy'n troseddi.
12.iv.b.05/16 Pont Henllan – nododd y Clerc bod y mater yma yn fater heb ei ddatrys rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Cyngor Sir Gâr ynghylch pa gyngor sydd a'r cyfrifoldeb o ofalu am wyneb yr hewl, dwedwyd bydd trafod yn mynd ymlaen i ceisio datrys y peth
12.iv.ch.05/16 Torchau Sul y Cofio – dwedodd y Clerc yr hyn a ddwedwyd wrthi oedd y bod y torchau yn cael eu symud o'r gofeb pan fyddent yn edrych yn amharchus
12.ii.05/16 Arwyddion DFS – mae pob arwydd yn gweithio ar hyn o bryd.
8. **06/16 GOHEBIAETH:**
 - i. e-bost – ULIC – Hyfforddiant sydd i ddod – *cylchlythyrwyd*
 - ii. e-bost – Antur Teifi – A ydych yn gwybod am rhywun sydd angen help i ddechrau busnes? – *cylchlythyrwyd*
 - iii. e-bost – Bethan Williams – Tynged yr Iaith Sir Gâr – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - iv. e-bost – Cau hewl dros dro – C1295 Ogof, Cwmpengraig – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - v. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 23.05.2016 - 27.05.2016 – *cylchlythyrwyd*
 - vi. e-bost – Rhodri Edwards – Caeau Canmlwyddiant – trafodwyd dan Materion yn Codi
 - vii. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 30.05.2016 - 03.06.2016 – *cylchlythyrwyd*
 - viii. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 06.06.2016 - 10.06.2016 – *cylchlythyrwyd*
 - ix. e-bost – John MacEvoy – Llinellau melyn – trafodwyd o dan Materion yn Codi
 - x. e-bost – Ceisiadau Cynllunio 13.06.2016 - 17.06.2016 – *cylchlythyrwyd*
 - xi. e-bost – 22/06/2016 4-7yh: 'More In Common: Cardiff festival of action to celebrate the life of Jo Cox' - *cylchlythyrwyd*
 - xiv. e-bost – Cyfarfod gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 30/06/16 yng Nghlwb y Cwms, Caerfyrddin rhwng 2–4yp – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xv. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 20.06.2016 - 24.06.2016 – *cylchlythyrwyd*
 - xvi. Adroddiad Blynyddol 2015/16 Ombwdsman
9. **06/16 CYNLLUNIO**
Cais Ymgynghori llawn
W/33868 – Mr Aled Jones, Aberlleinau, Felindre SA44 5YH – tŷ fferm newydd i amnewid y tŷ presennol (a fydd yn cael ei ddymchwel) ynghyd a mynedfa newydd i'r tŷ fferm – *dim barn*
W/33886 – Mr Michael Stone, Rhydawel, Llangeler, SA44 5HA – israniad o'r tŷ byw i greu dau dŷ byw – *cylchlythyrwyd*
W/33981 – Mr & Mrs Mathew Barnes, 20 Heol y Dderwen, PontTweli, Llandysul SA44 4RW – estyniad dau lefel i gefn y tŷ – *dim barn*
W/34006 – Capel Saron Chapel – gosod llechi naturiol llwyd tywyll o Sbaen ar wal ddeheol y capel i warchod y wal rhag y glaw a gosod plwm ar agoriad y ffenestri.....*dim barn*

9. 06/16 MATERION ARIANNOL

a. Anfonebau

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 27/06/2016£50.40
- ii .HIRIO NEUADD YR EGLWYS, PENBOYR – cyfarfod 27/06/16£7.00
[caniatad i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]
- iii. YSWIRIANT PARC PUW£1,777.00

Arian yn y Banc ar 03/06/2016.....£13,660.25

S/O

Cyflog y Clerk£433.33

b. Credid

Rent Cwmins Cwmhiraeth£250.00

10. 06/16 MATERION ANGEN TRAFODAETH.

- i. Cwmins Cwmhiraeth – roedd y Clerc wedi cael trafodaeth gyda Geraint o Arwerthwyr Dai Lewis ynglŷn a'r rhent ac awgrymodd y byddai £225 am gyfnod o 5 mlynedd yn addas – trafodwyd hyn a cytunwyd ar y swm.
- ii. Parc Saron – nododd y Clerc ei bod wedi cael gwybodaeth bod pwyllgor Parc Saron wedi diddymu a bod adnewyddiad o'r yswiriant yn ddyledus a thaladwy ar ddechrau Gorffennaf – cytunwyd y dylai'r Clerc ofyn i'r cwmini yswiriant a fyddai modd cael nodyn diogelu dros y mis i ddod ac y dylai'r Cadeirydd, Is Gadeirydd a'r Clerc gael cyfarfod gyda'r ymddiriedolwr.

11. 06/16 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

- i. Cyng M Phillips – nododd bod canghennau mawr yn hongian o'r coed ar y brif ffordd o Bentrecwrt i Llandysul – Cyng. K Howell i ddelio a'r mater
- ii. Cyng N Jones – dwedodd bod Llysiau'r dial yn frith a bod y ffens wedi pydru ger y bont ar y ffordd i ffatri Derw ym Mhentrecwrt – Cyng. K Howell i ddelio a'r mater
- iii. Cyng J Wigley – a) dwedodd bod cyflwr y priffyrdd yn Sir Gâr yn ddifrifol wael – Clerc i ysgrifennu at Ruth Mullen
b) holodd beth oedd yn digwydd ynghylch palmant Saron – dwedodd Cyng. K Howell bod £63,000 i'w wario i ostwng goryrru – Cyng. K Howell i ceisio darganfod beth sydd wedi ei drefnu ar gyfer yr ardal.
- iv Cyng K Howell – cododd y mater o Barc Chwarae Pentrecwrt a Thoiledau Parc Puw – cytunwyd rhoi'r ddau fater ar agenda'r cyfarfod nesaf

CYFARFOD NESAF

Cynhelrir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul ar nos Lun Gorffennaf 25ain 2016 am 7.30 yh

Daeth y Cyfarfod i ben am 8. 30yh

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

